# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**Lleoliad:**

**Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd**

**Dyddiad: Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2016**

**Amser: 11.00**

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

Sarah Beasley

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddIechyd@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(11.00 - 11.05)

## 2 Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: blaenraglen waith a busnes cynnar

(11.05 - 11.25) (Tudalennau 1 - 16)

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

(11.25)

## 4 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Plismona a Throseddu: ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

(11.25 - 11.40) (Tudalennau 17 - 23)

## 5 Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon: trafodaeth bellach ar y flaenraglen waith a busnes cynnar

(11.40 - 12.00) (Tudalennau 24 - 39)

# Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

**Dyddiad y cyfarfod: 14 Gorffennaf 2016**

**Papur 1**

## Cyfrifoldebau'r pwyllgor a'i flaenraglen waith yn y tymor byr

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn:

- nodi prif gyfrifoldebau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ('y Pwyllgor') ar gyfer y Pumed Cynulliad, ac yn
- gwahodd y Pwyllgor i gytuno ar ei flaenraglen waith yn y tymor byr.

### Sefydlu Pwyllgorau a'u Cylchoedd Gorchwyl

2. Mae Rheol Sefydlog 16.1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad sefydlu pwyllgorau a chanddynt bŵer yn eu cylch gwaith i:

(i) archwilio gwariant, gweinyddiaeth a meysydd polisi'r Llywodraeth a chyrff cyhoeddus cysylltiedig;
(ii) archwilio deddfwriaeth;
(iii) ymgymryd â swyddogaethau eraill sydd wedi'u nodi yn y Rheolau Sefydlog; a
(iv) thrafod unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru.

3. Drwy wneud hyn, mae'n rhaid i'r Pwyllgor Busnes sicrhau bod pob un o feysydd cyfrifoldeb y Llywodraeth a'r cyrff cyhoeddus cysylltiedig, ynghyd â phob mater sy'n ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a swyddogaethau Ysgrifenyddion Cabinet Cymru a'r Cwnsler Cyffredinol, yn destun craffu gan bwyllgor neu gan bwyllgorau.

4. Ar 28 Mehefin 2016, sefydlodd y Cynulliad chwe phwyllgor pwnc[1] i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir uchod, yn ogystal â phwyllgor polisi a deddfwriaeth wrth gefn. Mae chwe phwyllgor arall[2] wedi'u sefydlu hefyd i ymgymryd â'r swyddogaethau a bennir yn y Rheolau Sefydlog, gan gynnwys y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

## Rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor

5. Sefydlwyd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon gyda'r cylch gwaith o "archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisïau, yn cynnwys y meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): iechyd corfforol, iechyd meddwl, iechyd y cyhoedd a llesiant pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol."

6. Mae rhestr fanylach o gynnwys cylch gwaith y pwyllgor wedi'i hatodi yn Atodiad 1. Mae rhagor o fanylion am rolau a chyfrifoldebau ehangach pwyllgorau'r Cynulliad wedi'u nodi yn adroddiad y Pwyllgor Busnes, 'Pwyllgorau yn y Pumed Cynulliad', a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 23 Mehefin 2016.

## Rôl a chyfrifoldebau'r Cadeirydd

7. Mae'r Llywydd wedi ysgrifennu at yr holl Gadeiryddion yn dilyn eu hethol yn amlinellu disgwyliadau'r Cynulliad mewn perthynas â'r

---

[1] Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg; y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig; Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu; Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau; y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau; y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

[2] Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol; y Pwyllgor Cyllid; y Pwyllgor Deisebau; y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus; y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog; y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Cadeiryddion a'r Pwyllgorau, yn ogystal â'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae copi o'r llythyr hwnnw wedi'i atodi yn Atodiad 2.

**Sut mae'r pwyllgor yn gweithredu**

8. Mae'r rheolau a nodir yn Rheol Sefydlog 17 yn llywodraethu'r modd y mae'r pwyllgorau'n gweithredu. Mae cyngor ar unrhyw agwedd ar Reol Sefydlog 17 ar gael gan y Clercod. Mae rhai o elfennau allweddol Rheol Sefydlog 17 wedi'u nodi isod:

- Datgan Buddiannau (Rheol Sefydlog 17.24A) – Cyn cymryd rhan mewn unrhyw drafodion pwyllgor, rhaid i Aelod ddatgan unrhyw fuddiant, boed yn ariannol neu fel arall, sydd gan yr Aelod, neu hyd y gŵyr yr Aelod, sydd gan aelod o'i deulu, neu y mae'r Aelod neu aelod o'i deulu yn disgwyl ei gael sy'n berthnasol i'r trafodion hynny, ac y gellid ystyried yn rhesymol gan eraill ei fod yn dylanwadu ar gyfraniad yr Aelod.

- Cworwm (Rheol Sefydlog 17.31) – Rhaid datgan nad oes cworwm i gyfarfod pwyllgor os bydd llai na thri Aelod neu lai na thraean o nifer aelodau'r pwyllgor, pa un bynnag yw'r mwyaf, yn bresennol. Rhaid datgan nad oes cworwm i gyfarfod pwyllgor os un grŵp gwleidyddol yn unig a gynrychiolir gan yr Aelodau sy'n bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.

- Natur agored y pwyllgorau (Rheol Sefydlog 17.40) – Rhaid i bwyllgorau gyfarfod yn gyhoeddus, a rhaid caniatáu mynediad ar gyfer darlledu cyfarfodydd cyhoeddus yn unol â'r trefniadau y bydd y Comisiwn yn cytuno arnynt. Caiff cyfarfodydd pwyllgorau eu darlledu ar Senedd TV, ac mae trawsgrifiadau o gyfarfodydd pwyllgorau ar gael ar ffurf ddrafft o fewn tri i bum diwrnod gwaith. Cyhoeddir y fersiwn derfynol o fewn 10 diwrnod gwaith.

- Cyfarfod yn Breifat (Rheol Sefydlog 17.42) - Caiff pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod ffurfiol neu unrhyw ran o gyfarfod ffurfiol ar gyfer diben penodol. Nid yw'r Rheolau Sefydlog hyn yn berthnasol i gyfarfodydd anffurfiol.

- Dirprwyon (Rheol Sefydlog 17.48) –Caniateir i aelod o bwyllgor sydd wedi rhoi hysbysiad ymlaen llaw i'r cadeirydd gael ei gynrychioli mewn cyfarfod, neu ran o gyfarfod, gan Aelod arall o'r un grŵp gwleidyddol sydd wedi'i enwi ymlaen llaw.

**Cymorth i'r Pwyllgor.**

9. Bydd tîm integredig pwrpasol yn darparu cymorth i'r Pwyllgor ym mhob agwedd ar ei waith. Mae'r tîm integredig yn cynnwys staff y Comisiwn yn y meysydd a ganlyn:

- Tîm Clercio'r Pwyllgor
- Y Gwasanaeth Ymchwil
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Cyfathrebu (Allgymorth ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc)
- Y Gwasanaeth Cyfieithu a Chofnodi

**Blaenraglen waith y Pwyllgor**

10. Mae rhestr o ymholiadau y gallai'r Pwyllgor eu cynnal yn gynnar yn y Pumed Cynulliad wedi'i hatodi yn Atodiad 3. Mae'r rhestr hon yn seiliedig ar drafodaethau anffurfiol y Pwyllgor yr wythnos diwethaf. Bydd y Pwyllgor yn cael cyfle i drafod ei raglen waith yn y tymor hwy yn ystod tymor yr hydref.

11. Yn ogystal, efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried neilltuo amser yn gynnar yn nhymor yr hydref i drafod materion cynllunio strategol a'r dulliau o weithio y mae'r Aelodau'n eu ffafrio.

**Materion eraill**

12. Bydd angen cynnwys nifer o faterion penodol eraill ym mlaenraglen waith y Pwyllgor, gan gynnwys:

Deddfwriaeth

13. Gwnaeth y Prif Weinidog ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 28 Mehefin yn amlinellu Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ym mlwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad. Mae'r rhaglen yn cynnwys ymrwymiad i ail-gyflwyno Bil Iechyd y Cyhoedd, ond heb y cyfyngiadau ar ddefnyddio e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig.

14. Nid yw datganiad y Prif Weinidog yn cynnwys amserlen benodol ar gyfer cyflwyno Biliau unigol. Yn amodol ar y ffaith y bydd y Pwyllgor Busnes yn cytuno i gyfeirio Biliau penodol i'r Pwyllgor, efallai y bydd angen bod yn hyblyg wrth gynllunio'r flaenraglen waith er mwyn sicrhau bod y Pwyllgor yn gallu ymateb i ofynion y broses o graffu ar ddeddfwriaeth.

Craffu ar y Gyllideb

15. Bydd y gwaith o graffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn rhan arferol o raglen waith y Pwyllgor. Unwaith y bydd yr amserlen ar gyfer y gyllideb sydd ar ddod wedi'i chytuno, bydd y tîm clercio yn trefnu sesiynau craffu gyda'r Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol.

**Cam i'w gymryd**

16. Gwahoddir aelodau'r Pwyllgor i wneud y canlynol:

- nodi rôl a chyfrifoldebau'r Pwyllgor (paragraffau 5 a 6);

- cytuno ar ei flaenraglen waith yn y tymor byr (paragraff 10 ac atodiad 3);
- cytuno mewn egwyddor i neilltuo amser yn gynnar yn nhymor yr hydref ar gyfer cynllunio strategol (paragraff 11); a
- nodi'r materion penodol eraill i'w cynnwys yn y flaenraglen waith (paragraffau 12-14).

## Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a materion polisi, yn cynnwys y meysydd a ganlyn (ymysg meysydd eraill): iechyd corfforol, iechyd meddwl, iechyd y cyhoedd a llesiant pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

| Cyfrifoldeb | Ysgrifennydd y Cabinet neu'r Gweinidog perthnasol |
|---|---|
| Goruchwylio'r holl agweddau ar gyflawni a pherfformiad yn y GIG yng Nghymru o ddydd i ddydd, gan gynnwys: perfformiad yn unol â thargedau sydd wedi'u hamlinellu yn Fframwaith Canlyniadau a Chyflawni y GIG, ac sy'n cynnwys mesurau ansawdd, amseroedd aros rhwng atgyfeirio a thriniaeth, canser, cardiaidd, oedi wrth drosglwyddo gofal, damweiniau ac achosion brys, amseroedd ymateb ambiwlansys, dangosyddion iechyd meddwl ac iechyd y cyhoedd; | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| Pob agwedd ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru, gan gynnwys contractau gyda gweithwyr proffesiynol y prif gontractwr gofal sylfaenol, ac eithrio (i) goruchwylio'r proffesiynau meddygol; (ii) polisi ar eni plant ar ran pobl eraill, senotrawsblannu, embryoleg a geneteg ddynol; a (iii) trwyddedu meddyginiaethau (nid yw'r materion hyn wedi'u datganoli) | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| Cyflawni'r mesurau canlyniadau newydd | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| Cynlluniau cyflawni | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| Craffu ar berfformiad sefydliadau'r GIG yn unol â'u cynlluniau tair blynedd (Cynlluniau Tymor Canolig Integredig) | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| Goruchwylio'r gweithdrefnau uwchgyfeirio yn y GIG | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| Y taliadau a godir am wasanaethau'r GIG, gan gynnwys taliadau am bresgripsiynau a gwasanaethau deintyddol, offthalmig ac optegol | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| Darparu gwasanaethau yng Nghymru i bobl â salwch meddwl | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| Derbyn adroddiadau gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ymateb iddynt a'u cyfarwyddo | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| Goruchwylio gweithgareddau Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| Ymchwil a Datblygu ym maes iechyd a gofal cymdeithasol | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| Addysg feddygol ôl-radd. | Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon |
| Polisi a goruchwylio holl weithgareddau'r Awdurdodau | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a |

| | |
|---|---|
| Lleol yng Nghymru o ran gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys cyhoeddi canllawiau statudol | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Polisi ar ofal yn y gymuned | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Goruchwylio Cyngor Gofal Cymru | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Rheoleiddio lleoliadau preswyl a gofal cartref i oedolion, gofal maeth, darpariaeth gofal i blant dan 8 oed a gofal iechyd preifat yng Nghymru | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Arolygu'r gwasanaethau cymdeithasol a ddarperir gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru, a llunio adroddiadau am yr arolygiadau hynny (drwy Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru), gan gynnwys adolygiadau ar y cyd o wasanaethau cymdeithasol ac ymateb i adroddiadau | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Bil Iechyd y Cyhoedd Cymru | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Pob agwedd ar iechyd y cyhoedd a diogelu iechyd yng Nghymru, gan gynnwys diogelwch bwyd a fflworeiddio dŵr yfed | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Strategaeth a pholisi cenedlaethol ar gyfer chwaraeon cymunedol, gweithgareddau corfforol a gweithgareddau hamdden egnïol yng Nghymru, gan gynnwys noddi Cyngor Chwaraeon Cymru | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Hyrwyddo cerdded a beicio, gan gynnwys Deddf Teithio Llesol (Cymru) | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Gweithgareddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Bwyd sydd wedi'i addasu'n enetig (ac eithrio tyfu cnydau sydd wedi'u haddasu'n enetig) | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Cyfrifoldeb dros wasanaeth iechyd y Gwasanaeth Carchardai, heblaw am gontractau preifat | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Camddefnyddio sylweddau | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Iechyd y Lluoedd Arfog a Chyn-filwyr. | Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol |

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Elin Jones AC, Llywydd

**National Assembly for Wales**
Elin Jones AM, Presiding Officer

Dai Lloyd AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

Eich cyf:
Ein cyf:

30 Mehefin 2016

Annwyl Dai

Llongyfarchiadau ar gael eich penodi'n Gadeirydd pwyllgor. Drwy eich ethol i'r rôl hon, mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn ymddiried ynoch i ymgymryd â chyfrifoldebau sylweddol. Ar ran Comisiwn y Cynulliad a'r Pwyllgor Busnes, rwy'n ysgrifennu atoch i egluro disgwyliadau'r Cynulliad a'r cymorth sydd ar gael i chi ac i aelodau eich pwyllgor.

Mae pwyllgorau'r Cynulliad wrth wraidd y broses ddemocrataidd, ac mae cadeiryddion y pwyllgorau hynny yn chwarae rôl hanfodol yn eu llwyddiant o ran dwyn y Llywodraeth i gyfrif, gwneud cyfreithiau ac ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl Cymru. Cefnogaf yn gryf y weledigaeth a nodwyd gan y Comisiwn a Phwyllgor Busnes y Pedwerydd Cynulliad:

> *Dylai pwyllgorau'r Cynulliad ddangos eu bod yn gwella ansawdd canlyniadau polisi, deddfwriaeth, gwasanaethau cyhoeddus a gwariant gan y Llywodraeth i'r gymdeithas gyfan yng Nghymru. Dylent gael eu parchu a bod yn ddylanwadol a hygyrch, gan weithredu gyda gonestrwydd ac annibyniaeth. Dylai eu gwaith fod yn strategol a thrwyadl.*

Yn sail i'r weledigaeth hon y mae 10 o amcanion strategol, sydd wedi'u nodi yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Swyddfa.Breifat@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 6232

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Private.Office@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 6232

Yn yr Atodiad hwnnw, rwyf hefyd wedi cynnwys rhestr o brif gyfrifoldebau Cadeirydd pwyllgor. Mae'r rhain wedi'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Busnes. Maent hefyd yn sail i asesiad y Bwrdd Taliadau annibynnol o'r tâl ychwanegol y byddwch yn ei gael mewn perthynas â'r rôl. Felly, maent yn crynhoi'r disgwyliadau sydd ynghlwm wrth eich rôl newydd. Rwy'n deall y bydd aelodau'r Bwrdd Taliadau yn ystyried cyflogau'r cadeiryddion yn y Pumed Cynulliad yn eu cyfarfod nesaf ym mis Gorffennaf.

Mae clerc pwyllgor wedi'i ddyrannu i chi, a fydd yn eich helpu i sefydlu'r pwyllgor cyn toriad yr haf, sef: Sarah Beasley. Mae Sarah yn rheoli tîm bach a fydd yn darparu cefnogaeth a chyngor strategol, trefniadol a gweinyddol i chi a'ch pwyllgor. Mae Sarah hefyd yn arwain tîm integredig o arbenigwyr o wasanaethau eraill (ymchwil, cyfathrebu, materion cyfreithiol, a chyfieithu), ac yn cydweithio â staff o bob rhan o'r Comisiwn i ddarparu'r gwasanaethau y bydd ar eich pwyllgor eu hangen. Sarah yw eich pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer busnes y pwyllgor, ond byddwn yn eich annog i ddod i adnabod holl aelodau eraill y tîm ac i gydweithio'n uniongyrchol â hwy.  Er y bydd Sarah fel arfer yn treulio cyfran fawr o'i hamser hi yn gweithio gyda chi, bydd ei rôl hefyd yn cynnwys cefnogi Aelodau eraill y pwyllgor, a rhoi cymorth mewn perthynas â'r broses o graffu ar Filiau hyd yn oed ar ôl i drafodaethau eich Pwyllgor yn eu cylch ddod i ben]. Gan fod nifer y pwyllgorau wedi cynyddu ers y Pedwerydd Cynulliad, mae gwaith yn mynd rhagddo i drefnu'r strwythurau staffio terfynol. Bydd fy swyddogion yn cysylltu â chi ynghylch y mater hwn cyn dechrau tymor yr Hydref.

Bydd eich clerc a'ch tîm integredig yn eich cynorthwyo i gynnull eich pwyllgor ac i lunio rhaglen gychwynnol o waith. Rwyf yn argymell eich bod yn neilltuo amser yn gynnar yn eich cyfnod fel Cadeirydd i drafod materion cynllunio strategol, yn ogystal â'ch hoff ffyrdd o weithio, gyda holl Aelodau eich pwyllgor. Mae'r profiadau a gafwyd yn y Cynulliad blaenorol yn awgrymu y bydd trefnu amser penodol i wneud y gwaith hwn, ar wahân i fusnes arferol y Cynulliad, yn fuddiol. I helpu gyda'r broses hon, mae rhaglen gynhwysfawr ar gael i chi, fel Cadeirydd, ac i Aelodau eraill eich pwyllgor, mewn perthynas â'ch datblygiad proffesiynol parhaus.

Rwyf yn bwriadu trefnu cyfarfod o Fforwm y Cadeiryddion cyn gynted ag y bo modd. Bydd cyfarfod o'r fath yn rhoi cyfle i chi drafod gyda'ch cymheiriaid sut i wneud y defnydd gorau o'r broses graffu yn y system bwyllgorau, ac i gael

cytundeb trawsbleidiol ar y materion hyn. Rwyf yn gobeithio y bydd y Fforwm yn cyfarfod yn rheolaidd a byddwn yn eich annog i gymryd rhan weithredol er mwyn gyrru'r agenda strategol ar gyfer pwyllgorau yn ystod y Pumed Cynulliad.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at arweinydd a rheolwr busnes eich plaid. Byddaf hefyd yn trefnu bod copi yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cynulliad. Bydd hyn yn sicrhau bod eich rôl a'i pharamedrau yn eglur i bawb sydd â diddordeb yn eich pwyllgor, gan gynnwys eich cydweithwyr a phobl Cymru.

Dymunaf bob llwyddiant i chi yn eich rôl fel Cadeirydd, ac rwyf yn eich annog i gysylltu â mi unrhyw bryd yr hoffech drafod unrhyw agwedd ar waith eich pwyllgor. Yn ogystal, gallaf roi sicrwydd i chi y bydd holl staff y Comisiwn, gan gynnwys y Prif Weithredwr, yn barod i helpu eich pwyllgor gyflawni ei amcanion.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

**Atodiad**

**1. Amcanion strategol ar gyfer pwyllgorau'r Cynulliad**

Dyma fydd amcanion y pwyllgorau:

a. Byddant yn cytuno ar gynllun clir a strategol ar gyfer eu gwaith, sy'n blaenoriaethu eu gweithgareddau ac yn ystyried eu defnydd o amser ac adnoddau.

b. Byddant yn brif flaenoriaeth i'r Aelodau sy'n gwasanaethu arnynt.

c. Byddant yn dilyn arweiniad y cadeiryddion sy'n cyflawni pob un o'r disgwyliadau a osodwyd arnynt gan y Cynulliad.

d. Byddant yn cael eu parchu gan Lywodraeth Cymru, gydag ansawdd eu hymchwiliadau a'u gwaith craffu, manyldeb eu gwaith holi, dyfnder eu gwaith dadansoddi a gwerth eu gwelliannau deddfwriaethol yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn gwrando arnynt. Bydd y Llywodraeth yn ymwybodol o ymateb y pwyllgorau wrth iddi lunio ei chynlluniau o ran polisi, gwariant a deddfwriaeth.

e. Byddant yn craffu ar bolisi, gwariant a deddfwriaeth o fewn eu portffolios yn gyffredinol, nid fel agweddau unigol ar eu cyfrifoldebau.

f. Byddant yn cynnig ac yn disgwyl ymgysylltu adeiladol â Llywodraeth Cymru, ond yn cadw statws hyd braich a'u gallu i gynnig beirniadaeth wrthrychol.

g. Ni chânt eu cyfyngu gan rwystrau o ran mynediad at Weinidogion, gwybodaeth neu dystion, a byddant yn gallu cael gafael ar y cyngor a'r cymorth arbenigol sydd eu hangen arnynt.

h. Byddant yn ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bobl, yn cael eu hystyried gan grwpiau o randdeiliaid fel cyfranogwyr pwysig, dylanwadol ac fel y lle naturiol i gyflwyno pryderon a syniadau, ac yn ymgymryd â gwaith sy'n gwella enw da'r Cynulliad ymhlith y cyhoedd. Bydd eu gwaith yn hygyrch i gynulleidfa mor eang â phosibl.

i. Byddant yn sicrhau bod y rhai sy'n cyfrannu at eu gwaith yn gweld gwerth eu cyfranogiad.

j. Byddant yn gofyn am ddadansoddiad a gwerthusiad beirniadol er mwyn gwella eu perfformiad.

**2. Prif gyfrifoldebau cadeiryddion y pwyllgorau:**

Prif gyfrifoldebau cadeiryddion y pwyllgorau yw:

- pennu cyfeiriad strategol y pwyllgor a sicrhau bod blaenoriaethau tryloyw i'w weithgareddau er mwyn gwireddu rhaglen gytbwys, gynhwysfawr ac effeithiol o waith craffu ar ddeddfau, polisïau a chyllid;

- sicrhau bod y pwyllgor mor berthnasol a dylanwadol ag y bo modd, gan gadw ei annibyniaeth bendant oddi wrth Lywodraeth Cymru;

- gweithredu'n ddiduedd bob amser, yn bendant, yn deg ac mewn modd sy'n ennyn hyder y pwyllgor;

- ennyn hyder Aelodau, tystion a'r cyhoedd yn gyffredinol drwy feistroli'r pwnc sydd o dan sylw yng nghylch gwaith y pwyllgor; dangos technegau effeithiol mewn gwaith craffu ar ddeddfau, polisïau a chyllid; cadw trefn; a chymhwyso'r holl ofynion cyfreithiol a gweithdrefnol sy'n berthnasol i'r pwyllgor;

- sicrhau ymroddiad ac ymrwymiad pob aelod o'r pwyllgor a meithrin consensws trawsbleidiol pryd bynnag y bo modd;

- datblygu'r diwylliant a'r amrywiaeth sgiliau sy'n angenrheidiol i sicrhau bod y Pwyllgor yn gweithredu mor effeithiol â phosibl fel corff sy'n gwneud gwaith craffu;

- sicrhau bod y pwyllgor yn cael y cyngor arbenigol, y wybodaeth a'r cymorth arall y mae arno ei angen i gyflawni ei amcanion yn effeithiol;

- sbarduno pob agwedd ar waith y pwyllgor, gan sicrhau y caiff ei gyflawni'n gyflym ac i safon uchel;
- cynrychioli'r pwyllgor yn gyhoeddus, yn y cyfryngau ac ym musnes ffurfiol y Cynulliad; a
- sicrhau bod gwaith y pwyllgor yn cael ei ddadansoddi a’i werthuso'n feirniadol, sbarduno arloesi o ran y modd y mae'n gweithredu er mwyn cynyddu ei effaith, a sicrhau ei fod yn fwy effeithiol ac yn ymgysylltu'n well â'r cyhoedd.

# Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

## Rhaglen waith gychwynnol y Pwyllgor ar gyfer tymor yr hydref 2016

Mae'r papur hwn yn nodi rhaglen waith gychwynnol y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gyfer tymor yr hydref 2016. Mae'n fwriad gan y Pwyllgor neilltuo amser yn gynnar yn nhymor yr hydref i drafod cynllunio strategol; bydd yn cyhoeddi blaenraglen waith fwy manwl bryd hynny.

### Sesiwn graffu cyffredinol gydag Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Bydd yr Ysgrifennydd Cabinet a'r Gweinidog yn cael eu gwahodd i'r Pwyllgor ddechrau tymor yr hydref i amlinellu eu gweledigaeth a'u blaenoriaethau ar gyfer y 18 mis nesaf, ac er mwyn mynd ar drywydd unrhyw faterion etifeddiaeth. Gallai'r sesiwn hon efallai nodi meysydd i'r Pwyllgor graffu arnynt mewn mwy o fanylder.

### GIG cynaliadwy ar gyfer y dyfodol – ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch gweithlu'r GIG

Nodwyd mai cynaliadwyedd y gweithlu yw prif her y GIG yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n fwriad gan y Pwyllgor wneud gwaith cynnar i gasglu barn cyrff proffesiynol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (gan gynnwys myfyrwyr a gweithwyr rheng flaen) ynghylch recriwtio a chadw staff a'r camau y mae angen eu cymryd yn eu tyb hwy i sicrhau'r gweithlu cywir. Bydd y gwaith hwn yn helpu i sicrhau bod y Pwyllgor yn ymgysylltu â'r bobl y mae'r gwaith hwn yn effeithio arnynt.

Mae'r Pwyllgor yn bwriadu defnyddio toriad yr haf i alw am farn rhanddeiliaid a barn y cyhoedd ynghylch gweithlu'r GIG. Bydd y Pwyllgor yn defnyddio'r ymatebion i lywio cylch gorchwyl ymchwiliad yn y dyfodol.

### Pwysau gaeaf 2016/17

Gan adeiladu ar waith y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y Pedwerydd Cynulliad, bydd gwaith byr a manwl yn ceisio sicrwydd yn gynnar yn nhymor yr hydref bod y GIG yn barod i ddelio â phwysau ar wasanaethau gofal heb ei drefnu yn ystod y gaeaf sydd i ddod. Bydd hwn yn ymchwiliad undydd 'penodol' ar barodrwydd am y gaeaf.

### Ad-drefnu gwasanaethau ysbytai

Yn y Pedwerydd Cynulliad, cynhaliwyd ymgynghoriadau mawr ynghylch ad-drefnu gwasanaethau ysbytai yng Nghymru. Mae rhai meysydd eisoes yn gweld newidiadau; er enghraifft, gwasanaethau mamolaeth a newyddenedigol a gofal brys. Yn nhymor yr hydref, bydd y Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad undydd er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am hynt y broses, gan gynnwys y gwersi sydd i'w dysgu ohoni.

### Craffu ar y gyllideb

Bydd craffu ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn rhan arferol o raglen waith y Pwyllgor. Trefnir sesiynau craffu gyda'r Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol yn unol ag amserlen arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer ei chyllideb arfaethedig.

### Deddfwriaeth

Traddododd y Prif Weinidog ddatganiad yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 28 Mehefin yn amlinellu Rhaglen Ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn gyntaf y Pumed Cynulliad. Mae'r rhaglen yn cynnwys ymrwymiad i ailgyflwyno Bil Iechyd y Cyhoedd, heb y cyfyngiadau ar y defnydd o e-sigaréts mewn mannau cyhoeddus caeedig.

Nid yw datganiad y Prif Weinidog yn cynnwys amserlen benodol ar gyfer cyflwyno'r Biliau unigol. Yn amodol ar y Pwyllgor Busnes yn cytuno i gyfeirio Biliau penodol i'r Pwyllgor, bydd angen bod yn hyblyg wrth gynllunio'r flaenraglen waith er mwyn gallu ymateb i ofynion craffu deddfwriaethol.

### Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Plismona a Throseddu'r DU

Bydd y Pwyllgor yn trafod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Plismona a Throseddu'r DU y mae ei ddyddiad cau ar gyfer adrodd ar 22 Medi 2016.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi, ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon